

GORCHYMYN DINAS DINLLE CYNGOR GWYNEDD
(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) 2026

Cyngor Gwynedd (a elwir yn "y Cyngor" yma wedi hyn) drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 33, 34, 35, 36 a 124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"): fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007 a phob pŵer galluogi arall, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

RHAN 1

Cyffredinol

Dechrau a Dyfynnu

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar yr 2ail o Fawrth 2026 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Dinas Dinlle Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026 (y Gorchymyn neu y Gorchymyn hwn).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt yn y drefn honno:

Ystyr "Deddf 2004" yw Deddf Rheoli Traffig 2004 (fel y'i diwygiwyd);

Ystyr "dull talu cymeradwy amgen" yw taliadau heb arian parod, parcio a ffôn, taliad trwy gerdyn debyd neu gredyd a hwylusir trwy ddilysu ar y safle neu o bell trwy, er enghraifft, ddarllenydd cerdyn neu destun ffôn symudol neu alwad ffôn, trwydded parcio rhithwir;

Ystyr "person awdurdodedig" yw unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor neu a awdurdodir dan gytundeb gan y Cyngor; at ddibenion unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "cerbyd awdurdodedig" yw cerbyd a bennir yng Ngholofn 3 o Atodlen 1 y Gorchymyn hwn;

Ystyr ffi bathodyn glas yw'r ffi neu'r tâl sy'n daladwy yn y man parcio fel y'i nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "diwrnodau codi tâl", yw'r diwrnodau hynny sydd fel y'u pennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn;

Ystyr "cyfnod codi tâl" yw pob diwrnod codi tâl y cyfnod fel y'i pennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn fel y'i hamrywir o bryd i'w gilydd;

Ystyr "Cyngor" yw Cyngor Gwynedd neu ei awdurdod olynol ac mae'n cynnwys unrhyw gcontractwyr gwasanaethau parcio neu asiant awdurdodedig a benodir gan y Cyngor neu sy'n gweithredu ar ran y Cyngor at ddibenion unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "tâl dyddiol" yw'r ffi a osodir gan y Cyngor am barcio mewn man parcio ar unrhyw un diwrnod ac am gyfnod penodedig o amser a nodir yn y raddfa ffioedd a bennir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn neu mewn hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio;

Ystyr "Bathodyn Person Anabl" yw bathodyn a ddyroddir gan unrhyw Awdurdod Lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd neu fathodyn sy'n cael effaith o dan y rheoliadau hynny fel pe bai'n Fathodyn Person Anabl o dan Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd;

Ystyr "Cerbyd personau anabl" yw'r un ystyr ag yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Personau Anabl) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd. Mae'n berthnasol i unrhyw gerbyd sy'n arddangos bathodyn dilys i bobl anabl lle mae perchennog y bathodyn yn bresennol fel teithiwr neu fel y gyrrwr pan fydd y cerbyd wedi'i barcio;

Ystyr "gyrrwr" yw'r person sy'n gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y man parcio;

Ystyr "beic modur trydan" yw beic modur sy'n cael ei bweru gan drydan yn unig ac sy'n cael ei wefru gan ffynhonnell allanol;

Ystyr "bae gwefru beiciau modur trydan" yw bae parcio gydag arwydd ac sydd wedi'i farcio at ddefnydd beic modur trydan yn unig tra bod y beic modur hwnnw'n cael ei wefru drwy bwynt gwefru beic modur trydan;

Ystyr "pwynt gwefru beiciau modur trydan" yw uned bwrpasol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru beiciau modur trydan;

Ystyr "cerbyd trydan" yw:

- (i) cerbyd sy'n cael ei bweru gan drydan yn unig. Mae'r cerbyd yn cael ei wefru gan ffynhonnell pŵer allanol ac yn ymgorffori brecio adfywiol, neu
- (ii) cerbyd sy'n cyfuno batri, modur gyriant trydan ac injan hylosgi mewdol (ICE) a'r gallu i wefru'r batri o ffynhonnell pŵer allanol. Gall y cerbyd gael ei yrru gan yr ICE, y modur gyriant trydan neu'r ddau gyda'i gilydd;

Ystyr "bae gwefru cerbydau trydan" yw bae parcio gydag arwydd ac sydd wedi'i farcio at ddefnydd cerbyd trydan yn unig tra bod y cerbyd hwnnw'n cael ei wefru drwy bwynt gwefru cerbyd trydan;

Ystyr "pwynt gwefru cerbydau trydan" yw uned bwrpasol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru cerbydau trydan;

Ystyr "ffi cerbyd trydan" yw'r ffi neu'r tâl sy'n daladwy yn y man parcio fel y'i pennir yn Atodlenni 1 i 3 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "amser dod i ben" yw'r amser a nodir ar y tocyn Talu ac Arddangos, neu'r amser a nodir wrth ddefnyddio dull talu cymeradwy arall a dyma'r amser erbyn y mae'n rhaid i'r cerbyd adael y man parcio;

Ystyr "ffi" yw'r ffioedd neu'r taliadau sy'n gymwys yn y man parcio hwnnw ar gyfer y dosbarth priodol o gerbyd a bennir yn Atodlenni 1 i 3 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "cerbyd nwyddau ysgafn" yw cerbyd sydd wedi'i adeiladu neu wedi'i addasu i'w ddefnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad, nad yw ei uchder cyffredinol yn fwy na 1.85 metr ac nad yw ei bwysau heb ei lwytho yn fwy na 2540 cilogram ac nad yw'n tynnu trelar;

Ystyr "beic modur" yw cerbyd a yrrir yn fecanyddol gyda llai na phedair olwyn a bernir bod y term beic modur yn cyfeirio at y termau "beic modur unigol a beic modur gyda char ochr";

Ystyr "beic modur gyda char ochr" yw cerbyd a yrrir yn fecanyddol nad yw'n feic modur unigol;

Ystyr "car modur" yw cerbyd modur fel y'i diffinnir yn adran 136(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (nad yw'n gerbyd nwyddau nac yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus) ac nad yw'n tynnu trelar;

Ystyr "cartref modur" yw cerbyd trwyddedig a ddosberthir fel cartref modur, gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA);

Ystyr "perchennog" mewn perthynas â cherbyd yw'r person a gofnodir fel y ceidwad cofrestredig gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ar y dyddiad y parciwyd y cerbyd yn y man parcio o dan sylw.

Mae "parcio" a "wedi'i barcio" yn cyfeirio at stopio cerbyd ac mae'n aros yn llonydd am beth amser p'un a yw'r gyrrwr yn dal yn y cerbyd ai peidio a bernir bod cerbyd wedi'i barcio am unrhyw gyfnod yn yr un man parcio neu fae parcio (yn ôl y digwydd) os yw unrhyw ran ohono yn is na'r cerbyd neu lwyth y cerbyd (os o gwbl) p'un a yw'r cerbyd yn cael ei symud yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio;

Ystyr "Parcio a Ffôn" yw dull o dalu'r tâl parcio sy'n cynnwys cofrestru taliad dros y ffôn neu drwy ddulliau electronig ac, ar y defnydd cyntaf, cofrestru rhif cofrestru perthnasol y cerbyd, lleoliad y man parcio, manylion cerdyn credyd neu ddebyd neu unrhyw fanylion eraill o'r fath y gall y Cyngor ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd sy'n cael ei dderbyn gan y Cyngor fel dull dilys o dalu am yr amser perthnasol o ddefnyddio'r man parcio;

Ystyr "bae parcio" yw ardal o le parcio, a ddarperir ar gyfer gadael cerbyd o ddosbarth a bennir ac a ddynodir gan farciau ar wyneb y man parcio neu fel y'i harwyddwyd yn unigol neu a nodir fel arall gan arwyddion yn y man parcio;

Ystyr "trwydded parcio" yw unrhyw fath o drwydded neu drwydded parcio rhithwir o fath a dyluniad a ddyroddir gan y Cyngor at ddibenion awdurdodi parcio;

Ystyr "man parcio" yw darn o dir a ddangosir ar y cynlluniau yn Atodlen 4 ac fel y'i pennir yn Atodlenni 1, 2 a 3 a ddarperir gan y Cyngor yn unol ag Adran 32 neu 35 o Ddeddf 1984 at ddibenion parcio cerbydau ac nad yw wedi'i gau (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) gan hysbysiad a godwyd arno gan awdurdod y Cyngor;

Ystyr "tocyn talu ac arddangos" yw tocyn a ddyroddir gan beiriant tocynnau sydd wedi'i leoli yn y man parcio lle mae'r cerbyd wedi'i barcio neu a ddyroddwyd gan berson awdurdodedig a enwebwyd gan y Cyngor ar dalu tâl ac sy'n ddilys am gyfnod parcio fel y'i hysbysebir yn y man parcio hwnnw ac a bennir yn Atodlenni 1 a 2 y Gorchymyn hwn fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd a rhaid ei arddangos ar y cerbyd yn y sefyllfa berthnasol;

Ystyr "Tâl Cosb" yw'r tâl a bennir gan y Cyngor o dan Adran 77 o ran 6 ac atodlen 9 o Ddeddf 2004, sydd i'w dalu i'r Cyngor ar ôl dyroddi Hysbysiad Tâl Cosb ac o fewn y cyfnod a hysbyswyd ar yr Hysbysiad Tâl Cosb, o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw;

Ystyr "hysbysiad tâl cosb" yw hysbysiad a ddyroddir neu a gyflwynwyd gan berson a awdurdodwyd gan y Cyngor yn unol â darpariaethau rhan 6 o Ddeddf 2004;

Ystyr "cynlluniau" yw'r cynlluniau yn Atodlen 4 y Gorchymyn hwn ac sy'n nodi'r mannau parcio yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn hwn;

Ystyr "lleoliad perthnasol" yw

- (a) mewn perthynas â cherbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl dilys -
 - (i) yn achos cerbyd sydd â dangosfwrdd neu banel ffascia, mae'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod Rhan 1 (blaen y bathodyn) yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
 - (ii) yn achos cerbyd nad oes ganddo ddangosfwrdd na phanel ffascia, mae'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

- (b) mewn perthynas â cherbyd sy'n arddangos tocyn talu ac arddangos neu drwydded barcio -
 - (i) bod y tocyn neu'r drwydded barcio yn cael ei arddangos ar wyneb mewnol y sgrin wynt neu mewn safle amlwg fel ei fod yn wynebu ymlaen ac y gellir ei weld a'i ddarllen yn hawdd o flaen neu ochr y cerbyd; neu
 - (ii) yn achos cerbyd nad oes ganddo sgrin wynt dryloyw, mae'r tocyn neu'r drwydded barcio yn cael ei arddangos ar flaen y cerbyd sy'n wynebu ymlaen ac yn weladwy'n glir; neu

Ystyr "preswilydd" yw person sy'n breswilydd parhaol yn Sir Gwynedd;

Ystyr "tocyn parcio tymor Dinas Dinlle" yw trwydded i barcio ym maes parcio Dinas Dinlle yn unig, ac gellir parcio yn amodol bod lle parcio ar gael, ac a chyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r gorchymyn;

Ystyr "ffi safonol" yw'r ffi neu'r ffi sy'n daladwy yn y man parcio fel y'i pennir yn Atodlenni 1 i 3 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "beic modur unigol" yw cerbyd sy'n cael ei yrru'n fecanyddol gyda llai na 3 olwyn;

Ystyr "peiriant tocynnau" yw cyfarpar o fath a dyluniad a gymeradwywyd gan y Gweinidog priodol at ddibenion Deddf 1984, sef cyfarpar a gynlluniwyd i nodi'r amser gan gloc ac i ddyroddi tocynnau parcio sy'n dangos bod taliad wedi'i wneud o swm neu am gyfnod a bennir arno ac sy'n pennu'r dyddiad a, naill ai amser y taliad hwnnw, neu amser dod i ben y cyfnod parcio y gwnaethpwyd y taliad amdano;

Ystyr "cerbyd" at ddibenion y Gorchymyn hwn yw unrhyw gar modur, beic modur, car modur trydan neu feic modur trydan neu geir a threlar arall a yrrir yn fecanyddol. P'un a yw'r cerbyd mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio ar ffyrdd ai peidio ac yn cynnwys unrhyw siasi neu gorff gyda neu heb olwynion sy'n ymddangos fel rhan o'r cerbyd hwnnw ac unrhyw lwyth a gludir gan gerbyd o'r fath ac unrhyw beth ynghlwm wrtho. Lle bo angen, rhaid i'r cerbyd fod â MOT dilys a chael ei drethu yn unol â deddfwriaeth;

Ystyr "trwydded parcio rhithwir" yw cofnod electronig o docyn parcio, trwydded barcio neu ryddhad a gyhoeddwyd ac a gadarnhawyd gan y Cyngor i eithrio cerbyd rhag cyfyngiad neu i wneud taliad heblaw ar y safle a gwmpesir yn narpariaethau'r gorchymyn hwn, o dan y telerau sy'n berthnasol ar adeg ei gyhoeddi. Gellir cael trwydded parcio rhithwir drwy unrhyw un o'r dulliau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ac i fod yn ddilys rhaid ei chofrestru ar gyfrif mewn cronfa ddata electronig a gymeradwywyd gan y Cyngor gydag arwydd bod y drwydded barcio wedi'i chyhoeddi a'i dilysu yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

3. Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl wedi'i rhifo fel cyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Atodlen yn gyfeiriad at Atodlen y Gorchymyn hwn.
4. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ail-ddeddfu gan neu fel un sy'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.
5. Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb a bydd geiriau sy'n dynodi'r personau yn cynnwys y naill ryw neu'r llall, cyrff corfforaethol, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.
6. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n gymwys ar gyfer Dehongli Deddf Seneddol.

RHAN 2

DYNODI A DEFNYDDIO'R MANNAU PARCIO

Dynodiad

7. Caniateir defnyddio y tir fel y dangosir ar y cynlluniau yn Atodlen 4 y Gorchymyn hwn ac a restrir yn Atodlenni 1 a 3 y Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel lle i barcio cerbydau o'r cyfryw ddosbarthiadau, yn y cyfryw safleoedd, ar y diwrnodau hynny, yn ystod yr oriau hynny, am y cyfnod ac ar dalu y ffioedd a'r taliadau hynny a hysbysebir ym mhob man parcio ac fel a bennir yn Atodlenni 1, 2 a 3 y Gorchymyn hwn (fel y'u newidir o bryd i'w gilydd).

Dosbarth a lleoliad y cerbyd

8. Pan fo man parcio, ac yn nhermau'r Gorchymyn hwn, lle parcio, neu unrhyw fae parcio o fewn y man parcio, yn cael ei ddisgrifio fel un sydd ar gael ar gyfer cerbydau o ddosbarth penodedig neu gerbydau sydd i'w parcio mewn lleoliad penodedig, ni chaiff unrhyw berson beri na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio yn y man parcio hwnnw neu mewn unrhyw fae parcio o fewn y man parcio,
- (i) oni bai ei fod o'r dosbarth penodedig;
 - (ii) sydd wedi'i barcio y tu hwnt i farciau'r bae parcio;
 - (iii) mewn sefyllfa heblaw'r hyn a bennir; neu
 - (iv) er dibenion heblaw am y rhai y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn hwn.

Dosbarthiadau'r Cerbyd

9. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn bae parcio oni bai ei fod yn gerbyd modur, beic modur, cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl mewn lleoliad perthnasol, neu ddosbarth sydd wedi'i bennu'n benodol yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn neu fel y mae'n cael ei hysbysebu mewn man parcio.

Lleoliad y cerbyd

10. Os yw baeau parcio yn cael eu marcio allan mewn man parcio, bydd gyrrwr y cerbyd yn sicrhau nad yw'n cael ei barcio y tu allan i farciau'r bae parcio ac ni fydd yn caniatáu iddo aros yn y man parcio hwnnw oni bai ei fod wedi cael ei leoli fel hynny.
11. Os nad yw baeau parcio yn cael eu marcio allan mewn man parcio, bydd gyrrwr y cerbyd yn sicrhau ei fod wedi'i leoli fel nad yw'n rhwystro cerbydau eraill sy'n defnyddio'r man parcio, llif rhydd traffig yn y man parcio a'r mynedfeydd i, a'r allanfeydd o'r man parcio. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r gyrrwr lynu at unrhyw gyfarwyddiadau gan swyddog awdurdodedig.

Baeau parcio person anabl

12. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn bae parcio i bersonau anabl oni bai bod y cerbyd yn arddangos bathodyn person anabl dilys yn y lleoliad perthnasol ac yn union cyn neu ar ôl y weithred o barcio bod y cerbyd wedi neu ar fin cael ei ddefnyddio gan y person(au) y mae'r bathodyn person anabl wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â nhw.

Parcio gyda hawlen a thocyn parcio tymor Dinas Dinlle.

13. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd barcio mewn man parcio oni bai bod y cerbyd yn arddangos hawlen parcio dilys neu thocyn parcio tymor Dinas Dinlle ar gyfer yr amser hwnnw;

Baeau gwefru beic modur trydan

14. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i feic modur gael ei barcio mewn ardal sydd wedi'i marcio fel bae parcio beic modur yn feic modur trydan sydd wedi'i gysylltu i bwynt gwefru beic modur trydan drwy lîd cysylltu er dibenion ailwefru batris y beic modur trydanol a rhaid iddo fod yn gwefru.

Baeau gwefru cerbydau trydan

15. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd barcio mewn ardal sydd wedi'i marcio fel bae parcio cerbyd trydan oni bai bod y cerbyd yn gerbyd trydan sydd wedi'i gysylltu i bwynt gwefru cerbyd trydan drwy lîd cysylltu er dibenion ailwefru batris y cerbyd trydan a rhaid i'r cerbyd fod yn gwefru.

Baeau parcio i feiciau modur

16. Ni fydd person yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd barcio mewn bae parcio sydd wedi'i farcio ar gyfer beiciau modur oni bai bod y cerbyd yn feic modur.

Oriau gweithredu a'r cyfnod aros mwyaf

17. Pan yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac fel sydd wedi'i hysbysebu ar y safle yn y man parcio, man parcio neu mewn unrhyw fae parcio yn y man parcio, bod y man parcio yn cael ei ddisgrifio fel bod yn weithredol ar ddyddiau penodol, yn ystod oriau penodol neu ar gyfer uchafswm cyfnod aros, ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd gael ei barcio yn y man parcio hwnnw neu mewn unrhyw fae parcio yn y man parcio ar unrhyw ddydd, yn ystod oriau o'r fath neu am unrhyw gyfnod arall neu hwy na'r rhai a nodir.

Cyfnod dim dychwelyd

18. Pan yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn a thrwy hysbysiad mewn man parcio, mae man parcio yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod lle na all y cerbyd ddychwelyd i'r man parcio, ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd gael ei barcio eto yn y man parcio hwnnw ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod y fath oriau pan mae'r cerbyd yn cael ei eithrio rhag aros yn y man parcio hwnnw.

Y grym i gau neu atal mannau parcio

19. Ni fydd unrhyw beth yn y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor drwy hysbysiad, arwydd neu rwystr sy'n cael ei arddangos neu'n cael ei godi mewn man parcio:
- (i) o gau man parcio neu unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod; ac/neu;
 - (ii) drwy osod o'r neilltu fan parcio neu unrhyw ran neu rannau ohono ar bob dydd neu ar ddyddiau penodol neu yn ystod rhannau penodol o ddyddiau i gael ei ddefnyddio yn unig gan gerbydau neu sefydliadau penodol.

20. Bydd unrhyw berson awdurdodedig sy'n cau neu'n atal defnydd o fan parcio neu unrhyw ran ohono felly'n gosod neu'n achosi i gael ei osod mewn neu gerllaw'r man parcio hwnnw neu'r rhan hwnnw ohono hysbysiad neu arwydd traffig sy'n nodi bod y man parcio neu'r rhan hwnnw ohono wedi cau neu bod y defnydd ohono wedi'i atal a bod cerbydau'n cael eu gwahardd rhag parcio yno.
21. Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn man parcio neu unrhyw ran ohono yn ystod y fath gyfnodau lle mae'r man parcio neu'r rhan hwnnw ohono wedi cau neu bod y defnydd wedi'i atal neu yn ystod cyfnod o'r fath lle mae yno neu gerllaw iddo hysbysiad neu arwydd traffig yn nodi ei fod wedi cau neu wedi'i atal sydd wedi cael ei osod gan neu ar ran y Cyngor.

Gwerthu Nwyddau

22. Ni chaiff unrhyw berson mewn man parcio heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Cyngor, ddefnyddio cerbyd, mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw eitem, gan gynnwys y cerbyd ei hun, i unrhyw berson yn y man parcio neu gerllaw neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig sgiliau neu wasanaethau i'w llogi mewn unrhyw swydd arall.

Parcio gyda'r injan yn rhedeg

23. Ni chaiff unrhyw berson mewn man parcio barhau i redeg yr injan pan fydd y cerbyd yn y man parcio ac ni ddylai gychwyn yr injan ac eithrio pan fydd ar fin newid lleoliad y cerbyd yn y man parcio neu'n gadael y man parcio.

Parcio gan achosi rhwystr

24. Ni chaiff unrhyw berson mewn man parcio barcio'r cerbyd yn y fath fodd neu lle mae'n achosi rhwystr i unrhyw ddefnyddwyr eraill y man parcio.

RHAN 3

FFIOEDD AR GYFER PARCIO

Taliad

25. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei barcio mewn man parcio heb drefnu i'r ffi neu'r tâl dyddiol (os o gwbl) gael ei dalu yn unol â'r raddfa ffioedd a thaliadau fel y nodir yn Atodlen 2 neu Atodlen 3 neu hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio, neu arddangos tocyn talu ac arddangos yn nhermau ac yn y modd a sonnir isod.

Dull talu

26. Bydd y ffioedd dyddiol y cyfeirir atynt yn yr Erthygl flaenorol yn daladwy yn y modd a bennir yn yr Erthygl ganlynol ac fel y'u hysbysebir yn y man parcio hwnnw.

Mannau parcio talu ac arddangos

27. Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gerbyd, ar ôl parcio'r cerbyd mewn bae parcio, ar unwaith:
- (i) drefnu i brynu tocyn talu ac arddangos o beiriant tocynnau a leolir yn y man parcio hwnnw ar lefel y tâl ac am y cyfnod sy'n ofynnol yn unol â'r raddfa ffioedd a bennir yn Atodlen 2 neu Atodlen 3 neu hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio hwnnw; neu
 - (ii) gwneud trefniadau i dalu'r tâl dyddiol drwy ddull talu cymeradwy amgen ar lefel y tâl dyddiol ac am y cyfnod sy'n ofynnol yn unol â'r raddfa ffioedd a bennir yn Atodlen 2 neu hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio hwnnw.

Arddangos y tocyn

28. Ac eithrio mewn achosion o dalu drwy ddull talu cymeradwy arall, unwaith y bydd cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio talu ac arddangos, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd sicrhau:
- (i) bod tocyn talu ac arddangos dilys wedi'i gael i gwmpasu'r cyfnod cyfan y mae'r cerbyd wedi'i barcio yn y man parcio, a
 - (ii) bod tocyn talu ac arddangos dilys yn cael ei arddangos yn y safle perthnasol ar y cerbyd y rhoddwyd ef bob amser y mae'r cerbyd wedi'i barcio.

Dilysrwydd tocynnau talu ac arddangos

29. Nid yw tocyn talu ac arddangos yn drosglwyddadwy o un cerbyd i'r llall ac wrth drosglwyddo mae'r tocyn talu ac arddangos yn peidio â bod yn ddilys.
30. Mae tocyn talu ac arddangos yn ddilys yn unig yn y man parcio lle cafodd ei gyhoeddi. Diffinnir hyn gan god cyfeirio'r peiriant tocynnau sydd wedi'i leoli yn y man parcio hwnnw wedi'i argraffu ar y tocyn talu ac arddangos. Ym mhob achos, dim ond ar gyfer y cyfnod y gwnaed y taliad y bydd tocynnau talu ac arddangos yn ddilys.

Diwedd y cyfnod parcio

31. Diwedd y cyfnod y talwyd y tâl dyddiol ar ei gyfer fydd:-
- (i) pan brynwyd tocyn talu ac arddangos, pan fo'r amser a ddangosir ar gloc y peiriant tocynnau cyhoeddi yn hwyrach na'r amser dod i ben a ddangosir ar y tocyn talu ac arddangos a ddangosir; neu
 - (ii) pan fo tocyn tymor Dinas Dinlle wedi'i brynu mae'r tocyn yn ddilys tan 31 Hydref yn y flwyddyn pan y'i prynwyd; neu
 - (iii) pan ddefnyddiwyd dull talu cymeradwy amgen, pan fo'r cyfnod y gwnaed y taliad ar ei gyfer a'i gofnodi wedi pasio.

Dim tocyn talu ac arddangos yn cael ei arddangos

32. Os ar unrhyw adeg tra bod cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio nad oes tocyn talu ac arddangos yn cael ei arddangos ar y cerbyd hwnnw yn y safle perthnasol ac yn unol â darpariaethau'r gorchymyn hwn, ystyrir nad yw'r tâl wedi'i dalu oni bai bod dull talu cymeradwy arall wedi'i ddefnyddio sy'n dal i fod yn ddilys.
33. Os ar yr adeg pan fydd cerbyd yn cael ei barcio yn ystod yr oriau codi tâl mewn man parcio ac nad yw'r peiriant tocynnau agosaf yn y man parcio hwnnw yn gweithio, yna gellir nôl tocyn o beiriant tocynnau arall yn yr un man parcio (pan fo un wedi'i ddarparu) neu fel y cyfarwyddir yn y man parcio.
34. Lle na ellir cael tocyn talu ac arddangos dilys o beiriant tocynnau mewn man parcio, gellir parcio cerbydau mewn man parcio ond ni chaniateir eu parcio am fwy na'r uchafswm cyfnod parcio yn y man parcio hwnnw fel y'i hysbysebir yn y man parcio.

Cyfngiad ar dynnu'r tocyn

35. Pan fydd tocyn talu ac arddangos neu drwydded barcio wedi'i arddangos ar gerbyd yn y safle perthnasol, ni chaiff unrhyw berson dynnu'r tocyn talu ac arddangos neu'r drwydded barcio o'r cerbyd nes bod y cerbyd yn cael ei symud o'r man parcio.

RHAN 4

□ EITHRIADAU

Eithriad o'r tâl dyddiol

36. Ni fydd unrhyw ffi ddyddiol yn daladwy mewn perthynas â cherbyd sydd wedi'i barcio sy'n arddangos trwydded barcio sy'n ddilys ar gyfer y man parcio hwnnw.

Absenoldeb peiriant Tocynnau

37. Os nad oes peiriant tocynnau yn y man parcio ar yr adeg pan fydd cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio yn ystod yr oriau codi tâl, neu os oes hysbysiadau wedi'u gosod arnynt gan berson a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor yn y man parcio hwnnw sy'n nodi nad ydynt yn gweithio, bydd gyrrwr y cerbyd hwnnw wedi'i eithrio rhag prynu tocyn talu ac arddangos.

Talu drwy ddull talu cymeradwy amgen

38. Pan fo trefniadau i dalu'r tâl dyddiol wedi'u gwneud drwy ddull talu cymeradwy arall ac nad oes tocyn talu ac arddangos yn cael ei gynhyrchu drwy ddilyn y broses, bydd gyrrwr cerbyd wedi'i eithrio rhag y gofyniad i arddangos tocyn o'r fath.

RHAN 5

AIL-LEOLI, SYMUD A GWAREDU CERBYDAU

Argyfyngau

39. Caiff person awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn iwniform, gan ddefnyddio mesurau sy'n briodol, symud unrhyw gerbyd sydd wedi parcio mewn man parcio neu achosi i unrhyw gerbyd sydd wedi parcio mewn man parcio, gael ei symud mewn argyfwng i unrhyw le y mae'n credu ei fod yn addas.

Tramgwyddau mewn man parcio wedi'i atal

40. Caiff person awdurdodedig, gan ddefnyddio'r mesurau hynny sy'n briodol, symud neu beri i gael ei symud i unrhyw le y mae'n credu ei fod yn addas, unrhyw gerbyd sydd wedi'i barcio mewn man parcio sydd wedi'i gau neu ei atal yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan y Cyngor a bydd cost symud neu symud a chadw'n ddiogel yn atebolrwydd perchennog y cerbyd.

Cadw'n ddiogel

41. Rhaid i unrhyw berson sy'n symud cerbyd o le parcio o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn wneud y trefniadau hynny a allai fod yn rhesymol angenrheidiol i ddarparu ar gyfer cadw'r cerbyd yn ddiogel.

Gwaredu cerbydau sydd wedi'u gadael mewn mannau parcio

42. Caiff y Cyngor werthu neu waredu fel arall, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, gerbyd sydd wedi, neu y gellid ei symud ar unrhyw adeg o le parcio os ymddengys bod y cerbyd wedi'i adael.

RHAN 6

TRAMGWYDDO A FFIOEDD COSB

Tramgwyddo

43. Ac eithrio'r darpariaethau yn Rhan 7, os yw cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, bydd tramgwydd wedi digwydd, a bydd tâl cosb yn daladwy. Yna gellir cyhoeddi hysbysiad cosb a'i gyflwyno ac/neu fe ellir symud y cerbyd o'i leoliad. Bydd yr holl gamau gweithredu o ran deddfwriaeth a diwygiadau dilynol.Cyfngiad ar dynnu hysbysiadau
44. Ni fydd unrhyw hysbysiad, yn cynnwys hysbysiad ffi cosb, wedi'i osod ar gerbyd yn unol â'r Gorchymyn hwn, yn cael ei symud nac yn cael ei darfu ac eithrio gan neu dan awdurdod:
- (i) Perchennog, neu'r person sydd yng ngofal y cerbyd.
 - (ii) y Cyngor ar gyfer y man parcio lle y daethpwyd o hyd i'r cerbyd dan sylw.

Arwyddion fel Tystiolaeth

45. Bydd y manylion a roddir mewn unrhyw hysbysiad a gyflwynir ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn cael eu trin fel tystiolaeth mewn unrhyw gamau sy'n ymwneud â methu â thalu'r ffi cosb.

RHAN 7

RHWYMEDIGAETHAU A DARPARIAETHAU ERAILL

Rhwymedigaeth

46. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion neu ddifrod i gerbydau neu unrhyw eiddo arall sy'n cael ei adael mewn unrhyw fan parcio y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef, ac eithrio hynny sy'n codi yn sgil esgeulustod y Cyngor.

Dilysrwydd

47. Os oes Llys, yr Adran Trafnidiaeth, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ffioedd Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu nad oes modd ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

Treth ac Yswiriant

48. Bydd unrhyw berson sy'n achosi neu caniatáu i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio heb i'r cerbyd gael ei drwyddedu yn unol â darpariaethau Deddf Cerbydau, Treth a Chofrestru 1994 a heb bolisi yswiriant cyfredol mewn perthynas â defnyddio'r cerbyd gan y gyrrwr sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1972, yn agored i erlyniad.

Gyrru mewn man parcio

49. Lle mae arwyddion yn cael eu codi mewn man parcio, neu bod marciau arwyneb yn cael eu gosod er diben:
- (i) dangos y fynedfa neu'r allanfa o'r man parcio, neu
 - (ii) dangos bod cerbyd sy'n defnyddio'r man parcio yn symud mewn cyfeiriad penodol yn y man parcio,
- unrhyw berson sy'n gyrru neu'n gadael i unrhyw gerbyd gael ei yrru
- (i) fel ei fod yn mynd i mewn i'r man parcio mewn ffordd ac eithrio drwy fynedfa neu'n gadael y man parcio mewn ffordd ac eithrio drwy allanfa, sydd wedi'i nodi felly, neu
 - (ii) mewn cyfeiriad heblaw am yr un sydd wedi'i nodi, fod yn agored i gael ei erlyn.
50. Bydd unrhyw berson sydd, heb ganiatâd person a awdurdodwyd gan y Cyngor yn hynny o beth, yn gyrru neu'n caniatáu i gael ei yrru unrhyw gerbyd mewn man parcio at unrhyw ddiben heblaw am y diben o adael y cerbyd hwnnw yn y man parcio yn unol

â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu at ddibenion ymadael â'r man parcio, yn agored i erlyniad.

Difrod bwriadol

51. Bydd unrhyw berson sydd, gyda'r bwriad o dwyllo, yn ymyrryd â pheiriant tocynnau neu'n gweithredu neu'n ceisio ei weithredu trwy fewnosod gwrthrychau heblaw darnau arian heb eu difrodi a heb eu newid o dendr cyfreithiol ac o'r enwad priodol, yn agored i erlyniad.
52. Ni chaiff unrhyw berson achosi difrod i unrhyw offer y Cyngor, gosodiadau arwyddo neu oleuadau neu osodiadau eraill yn y man parcio nac i unrhyw ran o ffabrig y man parcio a bydd unrhyw berson sy'n gwneud hynny yn agored i erlyniad.

Dibenion domestig

53. Ac eithrio Erthygl 22 y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag adran (i) yr Erthygl hon, bydd unrhyw berson sy'n defnyddio unrhyw ran o'r man parcio neu unrhyw gerbyd sydd wedi'i barcio mewn man parcio
 - (i) ar gyfer cysgu neu fwyta neu wersylla neu goginio, neu
 - (ii) at ddibenion gwasanaethu neu olchi unrhyw gerbyd neu ran ohono ac eithrio sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn galluogi'r cerbyd i ymadael â'r man parcio, neu
 - (iii) ar gyfer chwarae neu gymryd rhan mewn unrhyw gamp neu hamdden yn y man parcio, neu
 - (iv) at ddibenion addysgu rhai sy'n dysgu gyrru; yn agored i erlyniad.

Ymddygiad

54. Bydd unrhyw berson sy'n seinio'n fwriadol unrhyw gorn neu unrhyw offeryn tebyg arall ar gerbyd ac eithrio pan fydd ar fin newid lleoliad y cerbyd yn y man parcio neu ymadael ohono, yn agored i erlyniad.
55. Bydd unrhyw berson sydd mewn man parcio yn gweiddi neu fel arall yn gwneud unrhyw sŵn uchel i aflonyddu neu gythruddo defnyddwyr y man parcio neu breswylwyr neu fangre yn y gymdogaeth, yn agored i erlyniad.
56. Bydd unrhyw berson sydd mewn man parcio yn defnyddio unrhyw iaith, ystum neu ymddygiad bygythiol, sarhaus neu sarhaus gyda'r bwriad o roi ofn i unrhyw berson neu er mwyn achosi torri'r heddwch neu lle mae torri heddwch yn debygol o gael ei achosi, yn agored i erlyniad.

Gweithgareddau Eraill

57. Bydd unrhyw berson sydd mewn man parcio:

- (i) sy'n codi neu'n achosi neu'n caniatáu i unrhyw sgip, pabell, bwth, stondin, adeilad neu strwythur arall gael ei godi heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor, neu
 - (ii) sy'n goleuo neu'n achosi i unrhyw dân gael ei gynnau,
 - (iii) sy'n cynnal gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â pharcio cerbyd yn y man parcio o dan delerau defnyddio'r man parcio;
- yn agored i erlyniad.

RHAN 8

DIRYMIADAU

Dirymiaidau

58. Mae pob Gorchymyn man parcio oddi ar y stryd a wnaed gan y Cyngor a'u holl ddiwygiadau ac unrhyw Orchmynion a Rheoliadau eraill o ba bynnag natur sy'n ymwneud â man parcio oddi ar y stryd Dinas Dinlle fel ar y cynllun i atodlen 4 ac o dan awdurdodaeth y Cyngor a wnaed cyn cyflwyno'r Gorchymyn hwn yn cael eu dirymu drwy hyn.

Rhoddwyd Sêl Cyngor Gwynedd ar y 16^{eg}

dydd o Chwefror 2026

Gosodwyd Sêl Cyngor Gwynedd

ym mhresenoldeb

ei swyddog awdurdodedig



45,248

Dyma'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Gwynedd Dinas Dinlle
(Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026.

ATODLEN 1 - MAN PARCIO LLE MAE ANGEN TALU

Enw'r Man Parcio a Rhif y Cynllun	Y lleoliad y gall cerbydau aros	Dosbarthiadau awdurdodedig y cerbydau y gellir eu parcio yn y Man Parcio	Diwrnodau ac oriau gweithredu rheolaethau yn y Man Parcio	Uchafswm cyfnod y gall cerbydau aros yn y Man Parcio
1	2	3	4	5
Maes Parcio Dinas Dinlle, Caernarfon Gwynedd LL54 5TW	Yn gyfan gwbl o fewn bae parcio lle mae baeau o'r fath wedi'u marcio neu fel y cyfarwydd ir gan berson awdurdod edig.	Car modur Beic modur Cerbyd person anabl Cerbyd nwyddau ysgafn Cerbydau trydan Beic modur trydan Deiliaid trwydded barcio ddilys Cartref modur (Dim cysgu dros nos)	Pob diwrnod Pob awr	Uchafswm arhosiad 16 awr Dim dychwelyd tan y diwrnod canlynol

Dyma'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Gwynedd Dinas Dinlle
(Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026.

ATODLEN 2 - TABL TARIFFAU MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD

Enw'r Man Parcio a Rhif y Cynllun	Cyfnod Codi Ffi (dyddiau ac oriau pan godir ffi)	Cyfradd Ffioedd
1	2	3
Maes Parcio Dinas Dinlle, Caernarfon Gwynedd LL54 5TW	Haf (1 Mawrth - 31 Hydref) 09.00 – 17.00	
	Ffi safonol	Hyd at 1 awr - Am ddim (Ar ôl arhosiad o 1 awr - dim dychwelyd tan y diwrnod canlynol oni bai bod taliad wedi'i wneud) 1 i 2 awr - £2.20 2 i 3 awr - £4.20 4 i 8 awr - £6.00
	Tocyn parcio tymor Dinas Dinlle dilys	Am Ddim (Mae'r tocyn yn ddilys hyd 31 Hydref yn yr un flwyddyn calendr pan gafodd ei brynu)
	Gaeaf (1 Tachwedd - 28 Chwefror) Holl Orlau	Am Ddim
	Daw ffioedd y gaeaf i ben ar 28 Chwefror, ac eithrio ar flwyddyn naid, pan ddônt i ben ar 29 Chwefror.	
	Deiliaid Bathodyn Glas	Am Ddim
	Cartref modur	Ffi Safonol:
	Parcio cartref modur dros ddau fae (neu fwy)	Rhaid prynu dau (neu fwy) o docynnau am bris y ffi safonol.

Dyma'r Atodlen 3 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Gwynedd Dinas Dinlle
(Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026.

ATODLEN 3 - FFIOEDD A THALIADAU

Math y Ffi	Lleoliadau Dan Sylw	Ffioedd
Tocyn parcio tymor Dinas Dinlle	Maes parcio Dinas Dinlle yn unig	£30.00

Dyma'r Atodlen 4 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Dinas Dinlle Cyngor Gwynedd Dinas (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026.

ATODLEN 4 - CYNLLUN O FAN PARCIO DINAS DINLLE

Gorchymyn Dinas Dinlle Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2026



Cyfeiriad : Maes Parcio Dinas Dinlle, LL54 5TW

Dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn yn weithredol :

45,249

Dyddiedig: 16 Chwefror 2026

GORCHYMYN DINAS DINLLE CYNGOR GWYNEDD
(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) 2026

Iwan G. Evans,
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol,
Cyngor Gwynedd,
Caernarfon.
Cyfeirnod: 2573948.drj

Dyddiedig :

GWYNEDD COUNCIL DINAS DINLLE (OFF-STREET PARKING PLACES)

ORDER 2026

Gwynedd Council (hereinafter called “the Council”) in exercise of its powers under Sections 32, 33, 34, 35, 36 and 124(1) and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (“the 1984 Act”): as amended and the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of Gwynedd) Order 2007 and of all other enabling powers, after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act, hereby makes the following Order:

PART 1

General

Commencement and Citation

1. This Order shall come into operation on 2nd March 2026 and may be cited as Gwynedd Council Dinas Dinlle (Off-Street Parking Places) Order 2026 (this Order).

Interpretation

2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings respectively assigned to them:

“2004 Act” means the Traffic Management Act 2004 (as amended)

“alternative approved method of payment” means cashless payments, park and phone, payment by debit or credit card facilitated by on site or remote verification by, for example, card reader or mobile phone text or phone call, virtual parking permit;

“authorised person” means any person duly authorised under contract by the Council or employed by the Council; for the purposes of any function under the provisions of this Order

“authorised vehicle” means a vehicle specified in Column 3 of Schedules 1 and 3 to this Order.

“Blue badge fee” means the fee or charge payable at the parking place as specified in Schedule 2 of this Order

“charging days”, means those days which are as specified in Schedule 2 to this Order;

“charging period”, means on all charging days the period as specified in Schedules 1 and 2 to this Order and as varied from time to time.

